CYMDEITHAS TAI CLWYD

ADDASIADAU I'CH CARTREF

Fe allwn eich cynorthwyo gydag addasiadau i'ch galluogi chi i gadw eich annibynniaeth a sicrhau eich bod chi'n ddiogel yn eich cartref ac o amgylch eich cartref.

Byddwn yn:-

- Sicrhau fod eich anghenion unigol yn cael ei asesu gan Therapydd Galwedigaethol unwaith y byddwch yn rhoi gwybod i ni eich bod chi'n cael anhawster ymdopi yn eich cartref.
- Gofyn i chi am fanylion, megis eich enw, cyfeiriad, dyddiad geni, enw eich Doctor, eich cyflwr meddygol a pha broblemau yr ydych chi'n ei gael.
- Eich hysbysu o unrhyw gynnydd yn y broses â ganlyn:-

1. Cyfeiriad cychwynnol at TG.
2. Derbyn cyfeiriad TG.
3. Ymweliad technegol i asesu a pharatoi tendr am waith.
4. Y broses tendro am y gwaith.
5. Cais yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru (os yn berthnasol).
6. Pa bryd fydd y gwaith yn dechrau a phwy yw'r contractwr.
7. Anfon gorchymyn gwaith i TG am ei gymeradwyaeth.

- Anelu i roi amcan clir o hyd y cytundeb gwaith, a pha mor hir y bydd y broses yn debygol o'i gymryd o'r dechrau i'r diwedd.
- Cadw taenlen o'r achosion, a mesur yn erbyn pob adran, i sicrhau fod gwaith yn cael ei wneud mor gyflym ag sy'n bosibl.
- Eich hysbysu o unrhyw oedi, a rhoi rhesymau digonol am yr oedi.
- Ceisio cadw at yr amserlen â ganlyn:-

1. Cadair esgyn, cawod cerdded i mewn, mân addasiadau:
   Achosion o argyfwng – cyn gynted ag y bo modd.
   Achosion brys - mewn 17 wythnos.
   Achosion blaenoriaeth - mewn 22 wythnos.
   Achosion risg isel - mewn 33 wythnos.

2. Addasiadau Sylweddol:
   Estyniad i'ch cartref – rhwng 18 mis a 2 flynedd, yn dibynnu ar lefel y gwaith sydd ei angen.
   Gwelliant sylweddol, yn cynnwys lifft fertigol, traciau nenfwd a hoists – rhwng 7 a 15 mis, eto yn dibynnu ar lefel y gwaith sydd ei angen.

- Efallai na fydd dim un o'r uchod yn addas ar gyfer eich achos penodol chi. Os hynny, byddwn yn blaenoriaethu eich cais am drosglwyddiad i gartref addas.
- Byddwn yn eich cyfeirio at restr yr awdurdod lleol o eiddo sydd wedi eu haddasu'n arbennig, fel bod eich siawns o gael eich ail-gartrefu yn cynyddu.

Byddwch chi:-

- Yn gyfrifol am dalu tâl gwasanaeth ar yr addasiadau hyn, lle bo'n briodol.

Os ydych angen y ddogfen hon mewn fformat gwahanol e.e. ar dâp, mewn Braille, cysylltwch â ni.

54 Stryd y Dyffryn
DINBYCH
Sir Ddinbych
LL16 3BW

☎0345 230 3140
🖷 0345 230 3145
www.taiclwyd.com
taiclwyd@taiclwyd.com

Uned 8, Gweithdai Penllyn
Heol Aran
Y Bala, Gwynedd
LL23 7SP